# CBAC TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

# Llwybr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion

# Cwestiynau Cyffredin ar ôl Datblygiad Proffesiynol Parhaus – Tachwedd 2021

**1. Pam mae asesiadau di-arholiad wedi cymryd lle gwaith cwrs yn y cymhwyster hwn?**

Ysgrifennwyd yr asesiadau di-arholiad ar gyfer y cymhwyster newydd hwn yn unol â Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru. Ymgynghorodd Cymwysterau Cymru ynghylch y meini prawf drafft cyn iddynt gael eu cadarnhau ond, wedi eu cadarnhau, y rhain sy'n diffinio beth mae'n rhaid i ni ei wneud yn ein manyleb. Cawsom gyfraniad hefyd gan gynrychiolwyr Addysg Uwch wrth ysgrifennu'r asesiadau, ac roeddent yn fodlon eu bod yn galluogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant a hefyd yn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol ***(gweler yr ymateb i gwestiwn 4 isod)***.

**2. Faint o oriau dysgu dan arweiniad a argymhellir ar gyfer y cymhwyster hwn?**

Gan fod hon yn fanyleb TAG UG a Safon Uwch, mae wedi'i llunio i gael ei chyflawni mewn 180 a 360 o oriau dysgu dan arweiniad yn ôl eu trefn. Mae Cymwysterau Cymru yn nodi mai cyfanswm amser y cymhwyster yw 250 a 500 awr ar gyfer cymwysterau UG a Safon Uwch.

**3. Oes angen gwneud ymchwil yn yr ystafell ddosbarth?**

Na, caiff dysgwyr gwblhau ymchwil y tu allan i amser gwersi. Bydd hyn yn caniatáu i chi dreulio mwy o amser ar weithgareddau addysgu a dysgu eraill yn yr ystafell ddosbarth.

**4. Pam mae'r cynnwys mor wahanol i gymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol hen fanyleb CBAC?**

Mae cynnwys y cymhwyster newydd yn gwbl newydd ac mae'n bodloni anghenion y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol; buom yn cydweithio'n agos iawn â hwy wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn. Roeddent yn teimlo bod yr hen gymhwyster yn hen-ffasiwn a nododd adolygiad Cymwysterau Cymru nad oedd yn addas i'r pwrpas mwyach. Canfu'r adolygiad fod angen i'r cwrs TAG newydd baratoi dysgwyr i wneud cynnydd o fewn y sectorau neu i addysg uwch neu gyflogaeth. Cafodd y cynnwys ei ddiffinio gan ofynion y meini prawf cymeradwyo, ac ymgynghorodd Cymwysterau Cymru yn eang ar y rhain, gan gynnwys gydag athrawon. Un o ganlyniadau'r adolygiad o'r sector oedd y diffyg arbenigwyr pwnc sy'n addysgu cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant mewn canolfannau, ac mae hyn yn rhywbeth roedd Cymwysterau Cymru yn gobeithio y gallai canolfannau ei unioni.Fodd bynnag, nid oes gennym awdurdodaeth dros y cymwysterau sydd eu hangen ar athrawon i gyflwyno ein cymwysterau cyffredinol; mae hyn yn ôl

disgresiwn pob canolfan. Rydym yn gwerthfawrogi'n llawn bod llawer o athrawon profiadol o wahanol gefndiroedd wedi addysgu'r hen gymwysterau'n llwyddiannus, a'i bod yn bosibl nad ydynt mor hyderus â rhywfaint o'r cynnwys newydd, ond dyma lle gallai canolfannau ymgysylltu ag arbenigwyr yn y sector a allai fod yn awyddus i'w cefnogi i gyflwyno'r cymhwyster.

**5. Pam mae cynlluniau marcio'r asesiad di-arholiad a'r deunyddiau asesu enghreifftiol yn ymddangos yn benagored iawn?**

**Unedau asesiad di-arholiad** – mae'r meini prawf ar gyfer marcio'r asesiadau di-arholiad wedi'u llunio i fod yn berthnasol i amrediad eang o waith gan ddysgwyr, er mwyn peidio â chyfyngu ar yr hyn y caniateir i ddysgwyr ei wneud o fewn eu tasgau asesu di-arholiad, oherwydd, ar lefel TAG, rydym yn gobeithio gweld amrywiaeth o ddulliau.

**Unedau arholiad** – wrth inni fynd drwy gyfres fyw, byddwn yn gallu rhannu cynlluniau marcio manylach sydd wedi bod drwy gynadleddau ar gyfer yr unedau arholiad, ac wrth gwrs byddwn yn rhannu enghreifftiau byw â sail resymegol o ran pam y rhoddwyd marciau, yn ogystal ag adolygu'r unedau arholiad ar-lein.

**6. Nid yw'n ymddangos bod y marciau a roddwyd ar gyfer yr asesiad di-arholiad yn cyfateb i'r marciau ar y papur arholiad;er enghraifft, mae'n ymddangos bod angen llawer o waith i ennill 6 - 8 marc ar yr asesiad di-arholiad o gymharu â'r un nifer o farciau ar bapur arholiad. Mae 32 marc mewn asesiad di-arholiad yn cymryd 10 awr o amser dan reolaeth yn ogystal ag amser ymchwilio ymlaen llaw, a'r papur arholiad yn rhoi 32 marc am ateb y bydd yn cymryd tua 32 munud i'r myfyriwr ei ysgrifennu. Sut mae hyn yn gymaradwy?**

Ni ellir cymharu asesiadau arholiad ac asesiadau di-arholiad fel hyn, gan ganolbwyntio ar amser. Mae hefyd yn bwysig ystyried pa sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n cael eu hasesu ym mhob uned a pha reolyddion sydd ar waith. O ystyried natur iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant, nid ydym yn credu y byddai asesiad 100% mewn arholiad yn ddilys nac yn ddiddorol i ddysgwyr. Mae'r asesiadau wedi'u cynllunio fel ymateb i ofynion y meini prawf cymeradwyo. Hefyd, mae cwblhau dwy dasg asesiad di-arholiad yn rhoi mwy o gyfle i ddysgwyr gyflawni rhywbeth. Er enghraifft, gellir cydbwyso marc isel ar dasg 1 â marc uwch ar dasg 2, ac mae dwy dasg yn golygu nad oes rhaid i ni gysylltu'r holl ofynion asesu ag un cyd-destun, a fyddai'n cyfyngu llawer mwy ar y dysgwr.

**7. Yr asesiad di-arholiad – a oes disgwyl cyfeiriadau ac a gaiff ymgeiswyr farc is am beidio â chynnwys cyfeiriadau?**

Oes, mae angen cynnwys cyfeiriadau i sicrhau nad yw ymgeiswyr yn llên-ladrata unrhyw ddeunyddiau gan neb arall.

**8. A fydd CBAC yn darparu mwy o ddeunyddiau enghreifftiol i athrawon eu defnyddio?**

Darparwyd cyfleoedd i asesu marcio ar gyfer pob uned yn ystod y DPP ac mae'r adnoddau wedi'u lleoli ar y wefan ddiogel. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar ddeunyddiau enghreifftiol ychwanegol a byddwn yn anfon cylchlythyr cyn diwedd tymor yr hydref i roi gwybod am ddyddiadau rhyddhau.

**9. A oes unrhyw adnoddau ychwanegol/dysgu proffesiynol ar gael?**

Byddwn yn darparu sesiynau holi ac ateb yn ddi-dâl yn y flwyddyn newydd.

Mae llawer o adnoddau ar gael ar gyfer yr unedau UG yn ein ffolderi DPP blaenorol ar y wefan ddiogel, yn ogystal â'r adnoddau U2 penodol i unedau ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru (DIGC).

Cynhyrchwyd y rhestr hon i gynorthwyo canolfannau i lywio drwy'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd: https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/rhestr-adnoddau-uguwch-igcgp-a-lefel-3-igc-egwyddorion-a-chyd-destunau/

Erbyn hyn gellir cadw lle ar gyfer y digwyddiadau holi ac ateb hyn: https://www.dysguiechydagofal.cymru/cyrsiau-a-digwyddiadau/

# Cofnodion holi ac ateb digwyddiad DPP byw 16/11/21

**1. Gaf i ofyn pam mai dull integredig yw'r gorau?**

Mae fel rheol yn well i staffio, ac yna mae'r asesiadau'n digwydd pan fydd dysgwyr yn fwy aeddfed ac wedi cael digon o amser i gyrraedd lefel briodol o wybodaeth a dealltwriaeth.

**2. Mae llawer o'n hymgeiswyr yn astudio TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ochr yn ochr â Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau. Mae llawer o'r damcaniaethwyr sy'n cael sylw yn Uned 5 (a) yr un rhai ag sy'n cael sylw yn Uned 2 y maes llafur Egwyddorion a Chyd-destunau.Rwyf wedi cael eglurhad na fyddwch yn marcio'n negyddol, a phe bai myfyriwr yn ateb â damcaniaethwr sydd ddim ar y maes llafur ond sy'n gywir a'i fod yn gwybod hyn gan ei fod wedi'i ddysgu o'r maes llafur arall, yr edrychir ar bob achos yn annibynnol. Gaf i ofyn i chi dynnu sylw arholwyr at hyn rhag ofn i fyfyrwyr wynebu anfantais?**

Wrth gwrs, caiff hyn ei drafod yn y gynhadledd farcio. Gallwn gadarnhau y byddai ein timau arholiadau'n ystyried unrhyw atebion cywir, os yw'r cynnwys wedi'i roi yn y fanyleb ai peidio. Rydym yn gwneud hyn yn glir mewn cynadleddau. Ni fyddai ymgeisydd yn colli marciau am gyfeirio at ddamcaniaethwr sydd ddim yn cael ei enwi yn Uned 5. Y polisi yw marcio cadarnhaol a rhoi marciau am unrhyw ymateb priodol.

**3. Ble gallaf ddod o hyd i'r hen uned sy'n ategu'r uned hon?**

Mae'r hen wybodaeth yn dal i fod ar gael ar y wefan agored – os nad yw hon gennych eisoes: https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/iechyd-a-gofal-cymdeithasol-ug-safon-uwch/#tab_overview

Bydd rhai cwestiynau ar hen bapurau arholiad yn addas i'w defnyddio heb addasiadau.

**4. Byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai'n bosibl addasu hen gwestiynau i ni â chynlluniau marcio newydd gan CBAC. Gwelais, â chyfrifoldeb ychwanegol marcio di-dâl y llynedd, fy mod yn treulio llawer gormod o amser yn ceisio canfod cwestiynau perthnasol ac addasu cynlluniau marcio ynghyd â chreu adnoddau newydd.**

- **Ble gallaf ddod o hyd i hen gwestiynau, os gwelwch yn dda? Hefyd, a fydd hyn yn gysylltiedig â'r adran adnoddau o gwbl? Byddai'n ddefnyddiol cael ychydig o fanylion o'r rhain a fydd yn croesi drosodd, i arbed gorfod chwilio drwy'r cyfan i ddod o hyd i'r rhai perthnasol.**
- **Gofynnais gwestiwn yn gynharach am gronfa o hen gwestiynau wedi'u haddasu gyda chynlluniau marcio wedi'u haddasu ar gyfer Uned 5, ond nid wyf wedi cael ateb. Ydy hyn yn bosibl? Byddai'n ddefnyddiol iawn i ni.**

Dim ond un deunydd asesu enghreifftiol sydd i bob uned, sy'n arfer cyffredin â phob manyleb newydd. Rydym wedi trafod cais i ryddhau papurau ychwanegol ag aelodau o'r uwch dîm rheoli ac, yn anffodus, ni fyddwn yn rhyddhau unrhyw bapurau pellach a ysgrifennwyd ar gyfer cyfresi arholiadau byw ar gyfer unrhyw gymwysterau sydd o fewn ein cylch gwaith. Mae'r deunyddiau cefnogi a gynhyrchwyd ar gyfer haf 2021 ar gael ar y wefan ddiogel i'ch cynorthwyo chi i asesu Uned 1, yn ogystal â chronfa enfawr o gyn-bapurau a chwestiynau perthnasol i'r hen gymhwyster y gellid eu defnyddio at ddibenion asesu. Mae hyn yn rhywbeth y bydd angen ei hwyluso o fewn y ganolfan.

**5. Pryd fydd y llyfr yn barod ar gyfer hwn? Pryd fydd gwerslyfr U2 yn barod?**

Dylai gwerslyfr y llwybr iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Tachwedd. Gan fod hyn yn hwyrach na'r bwriad gwreiddiol, mae ein tîm adnoddau'n cynnig disgownt i'r holl archebion a wneir o fewn y mis cyntaf ar ôl ei gyhoeddi, a hefyd yn cyhoeddi penodau drafft ar y wefan wrth iddynt gael eu cwblhau yn y cyfamser.

**6. Pryd gallwn ni archebu?**

Mae ffurflen ragarchebu ar gyfer y gwerslyfr ar gael yn adran Dogfennau Allweddol tudalen pwnc TAG IGCGP ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru (DIGC): https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/advanced-gce-and-advanced-subsidiary-gce-in-health-and-social-care-and-childcare/.

**7. Ble mae'r deunyddiau asesu enghreifftiol, os gwelwch yn dda?**

Mae'r deunyddiau asesu enghreifftiol ar gael yn adran Dogfennau Allweddol tudalen pwnc TAG IGCGP ar wefan DIGC: https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/advanced-gce-and-advanced-subsidiary-gce-in-health-and-social-care-and-childcare/.

**8. Ydy hyn yn golygu bod y deunyddiau asesu enghreifftiol ar gael i fyfyrwyr hefyd?**

Gall myfyrwyr ddefnyddio'r deunyddiau asesu enghreifftiol fel "ffug" asesiadau. Ni ddylid rhannu unrhyw asesiadau di-arholiad enghreifftiol a ryddheir â'r dysgwyr yn eu cyfanrwydd.

Bwriad y rhain yw cynorthwyo athrawon i baratoi dysgwyr am yr asesiadau a'u marcio cyn cymedroli.

**9. A oes gennych ragor o sleidiau i helpu ag Uned 6?**

Mae'r deunyddiau cefnogi U2 ar gael ar wefan DIGC, dan 'Adnoddau', a bydd mwy o waith enghreifftiol ar gael cyn bo hir.

**10. A oes gwaith enghreifftiol i'n cynorthwyo i gyflwyno'r pwnc?**

Mae gwaith enghreifftiol ar gyfer pob uned ar y ddau lwybr yn y camau cynhyrchu olaf, a chaiff y rhain eu rhyddhau'n fuan iawn pan fyddant ar gael yn Gymraeg a Saesneg – diolch am eich amynedd.

**11. A fydd y sioe sleidiau ar gael i ni ar ôl y sesiwn hwn?**

Caiff yr holl ddeunyddiau a ddefnyddiwyd yn y sesiwn hwn, gan gynnwys y prif gyflwyniad PowerPoint, eu llwytho i fyny i wefan ddiogel CBAC yn fuan ar ôl y digwyddiad hwn.